

SESIWN IEUENCTID.

GEM 1.

Esbonio fod yr Philipinas yn wlad llawn ynysoedd felly yn y gem yma mae'n rhaid dod o hyd i ynys eich hun.

Angen – Un tudalen o bapur newydd i bob person.

Cerddoriaeth

Mae'r gem yn cychwyn gyda digon o bapur newydd (ynysoedd) i bob un o'r ieuenctid allu sefyll ar. Yna mae'r cerddoriaeth yn dod ymlaen ac mae'n rhaid i'r ieuenctid symud o amgylch y'r ystafell. Wedyn mae'r cerddoriaeth yn cael ei droi ffwrdd ac mae'n rhaid i bawb ddod o hyd i ynys ei hun. Arol pob rownd fydd angen cymryd un darn o bapur newydd allan o'r gem. Y person olaf i gyrraedd ynys ei hun fydd allan. Mae angen ail-adrodd hun tan mae un enillydd.

CYFLWYNIAD I'R PHILIPINAS A STORI CHRISTIAN.

Mae Christian yn fachgen 13 oed sy'n byw yng nghymuned Mantuyong, ynys Cebu, Y Pilipinas.

Rhan o ddinas Cebu, ail ddinas y Pilipinas yw Mantuyong lle mae Christian yn byw. Mae hi'n ardal dlawd iawn a llawer o bobl yn byw ar ben ei gilydd mewn slymiau mawr.

Am 1.35 y bore ar Fawrth 12 2016 cafodd teuluoedd y gymuned eu deffro gan sŵn cloch yn canu – y gloch dân oedd hi! Roedd tan wedi cydio ynghanol eu cymuned ac roedd rhaid i bawb ddianc. Dyma'r trydydd tân yno dros y blynnydoedd diwethaf. Llwyddodd y gymuned i ddiffodd y ddau dân cyntaf cyn i'r frigâd dân gyrraedd. Ond y tro hwn roedd hi'n ganol nos pan ddechreuodd y tân ac roedd pawb yn cysgu. Erbyn i rhywun ganu'r gloch roedd y tân yn rhy ffyrnig i'r tîm cymunedol geisio ei ddiffodd. Yr unig beth oedd yn bosibl i'w wneud oedd arwain pobl i le diogel. Oherwydd yr holl ymarferiadau tân yr oeddent wedi eu gwneud gyda help partner Cymorth Cristnogol, FORGE, llwyddodd y tim achub wneud eu gwaith yn effeithiol ac arweiniwyd pawb i ddiogelwch.

Llogwyd tua 500 o dai i'r llawr ac effeithiwyd dros 2000 o bobl, ond diolch i drefn y tîm achub, ni chafodd unrhyw un anafiadau drwg ac ni gollwyd yr un bywyd. Y noson honno cafodd pawb le i gysgu mewn Canolfan Hamdden.

Gyda help FORGE (partner Cymorth Cristnogol) roedd y gymuned hon wedi bod yn cynnal ymarferiadau diogelwch tan, ac ymarferiadau rhag stormydd a thrychinebau naturiol.

O fewn dau ddiwrnod roedd y gymuned wedi llwyddo i gael help y cyngor lleol ac wedi cael pebyll a safle dros dro iddyn nhw fyw. Mae'r bobl yn dal i fod yn byw mewn pebyll wrth ymyl hen Ganolfan sydd yn adfail. Mae tua 600 o deuluoedd yno. Mae hi'n gallu bod mor boeth yno nes fod yn well gan y bobl gysgu tu allan.

Mae Christian yn fachgen bychan ac mae'n dawel iawn. Mae ganddo un brawd ac un chwaer. Mae rhai o'r plant yn y gwerysll wedi dioddef yn ofnadwy ar ôl y tân. Mae rhai yn cael breuddwydion cas ar ôl dychryn,

a cholli eu cartrefi. Mae llawer wedi gorfod symud ysgol am fod y gwrsyll mor bell oddi wrth lle'r oedden nhw'n byw.

Hoff bwnc Christian yn yr ysgol yw'r iaith Filipino. Ei hoff chwaraeon yw pêl faged.

Dydi Christian ddim eisiau byw yn y gwrsyll yma am byth. Mae'n ei chael yn anodd i wneud ei waith cartref am ei fod yn codi mor gynnar. Mae'r ysgol yn cychwyn am 6.00 y bore ac yn gorffen am 12.40.

Mae tua 46 – 50 o ddisgyblion yn y dosbarth a does yna ddim digon o fyrddau na chadeiriau i bawb, felly mae nhw'n gorfod rhannu.

Y newyddion da ydi fod pobl yn y gymuned am gael tai newydd yn y lle'r oedden nhw'n byw. Mae FORGE wedi helpu'r bobl i drafod adeiladu tai gyda'r llywodraeth. Bydd yr arian fydd yn cael ei gasglu gennym ni yng nghapeli Eglwys Bresbyteraidd Cymru yn helpu i wneud gwahaniaeth i fywydau pobl fel Christian a'i deulu.

GEM 2.

Esbonio fod dros 120 o ieithoedd yn cael ei siarad yn yr Philipinas.

Angen – post its gyda 'helo' mewn ieithoedd gwahanol (tua 20 o bost its) wedi'w guddio o amgylch yr ystafell o flaen llaw.

Mae'r gem yn cychwyn gyda cerddoriaeth ac mae'n rhaid i'r ieuenctid fynd o amgylch yr ystafell yn trio dod o hyd i'r post its. Meant yn cael un pwynt am ddod o hyd i'r post it, ac pwynt arall os maent yn gallu dyfalu y iaith sydd ar y post it yn gywir.

GEM 3.

Dodgeball eistedd lawr.

Angen – Un pêl sbwng

Mae'r gem yn cychwyn gyda'r arweinydd yn taflu'r bel i ganol y ieuenctid. Yna mae'r ieuenctid yn ceisio taro ei gilydd gyda'r bel (o dan y glun yn unig). Ar ôl i rhywun cael ei daro maent yn eistedd lawr ac yn aros a rai eistedd nes mae pwy bynnag wnaeth ei daro nhw yn cael ei daro. Mae'r gem yn gorffen pan mae pawb ond un yn eistedd lawr. Ni does hawl symud tra yn dal y bel.

SGWRS.

Marc 2 : 1-12

¹ Ychydig ddyddiau wedyn, aeth Iesu yn ôl i Capernaum. Aeth y si o gwmpas ei fod wedi dod adre, ² a daeth tyrfa mor fawr i'w weld nes bod dim lle hyd yn oed i sefyll y tu allan i'r drws. Dyma Iesu'n cyhoeddi neges Duw iddyn nhw. ³ Yna daeth rhyw bobl â dyn oedd wedi'i barlysu ato. Roedd pedwar yn ei gario, ⁴ ond yn methu mynd yn agos at Iesu am fod yno gymaint o dyrfa. Felly dyma nhw'n torri twll yn y to uwch ei ben, a gollwng y dyn i lawr ar y fatras oedd yn gorwedd arni. ⁵ Pan welodd Iesu'r ffydd oedd ganddyn nhw, dwedodd wrth y dyn oedd wedi'i barlysu, "Ffrind, mae dy bechodau wedi'u maddau."

⁶ Roedd rhai o'r arbenigwyr yn y Gyfraith yno. Yr hyn oedd yn mynd drwy'u meddyliau nhw oedd, ⁷ "Sut mae'n gallu dweud y fath beth? Cabled ydy dweud peth felly! Duw ydy'r unig un sy'n gallu maddau

pechodau!”⁸ Roedd Iesu'n gwybod yn iawn mai dyna oedden nhw'n ei feddwl, ac meddai wrthyn nhw, “Pam dych chi'n meddwl mod i'n cablu?”⁹ Ydy'n haws dweud wrth y dyn ‘Mae dy bechodau wedi'u maddau,’ neu ‘Cod ar dy draed, cymer dy fatras a cherdda?’¹⁰ Cewch weld fod gen i, Fab y Dyn, hawl i faddau pechodau ar y ddaear!” A dyma Iesu'n troi at y dyn oedd wedi'i barlysu, a dweud wrtho,¹¹ “Cod ar dy draed, cymer dy fatras, a dos adre.”¹² A dyna'n union wnaeth y dyn! Cododd ar ei draed yn y fan a'r lle, cymryd ei fatras, a cherdded allan o flaen pawb. Roedd pawb wedi'u syfrdanu'n llwyr, ac yn moli Duw. “Dŷn ni erioed wedi gweld dim byd tebyg i hyn!” medden nhw.

(Rhannu y ieuenctid mewn i 4 grwp a gofyn iddynt drafod un perspectif y stori yna adrodd yn ôl)

Grwp 1 – Persbectif arbenigwyr y gyfraith.

Grwp 2 – Persbectif ffrindiau y dyn claf.

Grwp 3 – Persbectif y claf ei hun.

Grwp 4 – Persbectif Iesu.

ESBONIO.

Y Ffrindiau da – Roedd y ffrindiau yma wirioneddol yn barod i helpu ei ffrind. Roeddent wedi clywed am Iesu ac sut yr oedd yn iachau bobl ac wrth glywed fod Iesu yn y dref wnaethent ddim brysio'n sydyn i'w weld drostynt ei hunain ond wnaeth nhw feddwl am ei ffrind ac mynd i'w nol a'i gario at Iesu. Ac er roedd o'n anodd ac doedd dim digon o le, wnaeth y ffrindiau dal at ii drïo ac hyd yn oed gwneud twll yn y to er mwyn gollwng ei ffrind at Iesu.

Yda chi'n meddwl fod rhai bobl yn Yr Philipinas angen ffrindiau fel oedd gan y dyn claf yma?

Efallai ddim gan eu bod yn glaf, ond efallai rhesymau eraill, e.e ddim bwyd, ddim lle i gysgu? Sut alle ni fod fel y ffrindiau yn stori tuag at bobl Yr Philipinas sydd mewn angen o'n cymorth?

Yr Iesu da – Roedd Iesu yn y stori yma siwr o fod mewn dipyn o shoc i weld y dyn yn cael ei ollwng drwy'r to. Ond roedd Iesu yn gwybod yr union rheswm pam gafodd ei ollwng drwy'r to hefyd. Ac ar unwaith wnaeth Iesu iachau y claf.

Ond wnaeth Iesu ddefnyddio y geiriau “Ffrind, mae dy bechodau wedi'u maddau.”

Er mai claf roedd y dyn ac angen ei iachau fel y gallai gerdded eto, roedd Iesu yn sylwi fod angen hyd yn oed fwy ar y dyn. Sef yr angen i'w gael ei faddau. Ac mae'r angen yna ar bob un, ac efallai ar y tu allan mae rhai o ni'n edrych yn iawn, ar y tu fewn da ni gyd wedi gwneud pethe o'i le sydd angen ei maddau, ac mae'r Iesu eisio rhoi y maddeuant yna i gyd o ni heddiw. Ac oll sydd angen ei wneud ydi gofyn am y maddeuant, ac gwybod fod y maddeuant dim ond yn bosib drwy Iesu yn cymryd ein lle ni ar y groes ac yn cymryd y gosb am yr holl bethau drwg da ni wedi ei wneud. Felly gan fod Iesu wedi cymryd y gosb am bob dim drwg da ni wedi ei wneud, oll sydd ar ôl i wneud ydi gofyn am y maddeuant yma.

GWEDDI.

SYNIADAU HEL ARIAN.

- 1, Gofyn caniatad yr ysgol i'r holl ddisgyblion i gael gwisgo "dillad ein hun" ac talu £1 i gael gwneud hynny.
- 2, Golchi Ceir. Troi maes parcio y capel mewn i lle golchi ceir am ddiwrnod, yr ieuenctid i olchi'r ceir ac creu taflenni hysbyseb.
- 3, Noson ddi-gwsg. Noson i'r ieuenctid gyda'r nod o aros ar eu traed drwy'r nos gyda'r nod o gael bobl i'w noddi i wneud.

Sion Morris

Swyddog Plant ac Ieuenctid gogledd Cymru